# CYTUNDEB COFRESTRU AR GYFER MYFYRWYR PARTNERIAETHAU CYDWEITHREDOL

## DIBEN Y CYTUNDEB HWN

Pan fyddwch yn cofrestru ar un o gyrsiau'r Brifysgol rydych yn cytuno i'r telerau a'r amodau a ddisgrifiwyd pan wnaethoch dderbyn lle ar y rhaglen. Rydych hefyd yn cytuno i gydymffurfio â Rheoliadau a phrosesau Prifysgolion fel y disgrifir isod.

## RHEOLIADAU'R BRIFYSGOL

I gael gwybodaeth am reoliadau myfyrwyr, gweler: www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/

Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gyflwyno newidiadau yn ystod blwyddyn academaidd ond bydd yn rhoi gwybod i fyfyrwyr am unrhyw newidiadau arfaethedig mewn da bryd cyn iddynt gael eu gweithredu.

## DATA PERSONOL

Mae unrhyw ddata personol a ddarperir i'r Brifysgol a'r sefydliad lle'r ydych yn astudio yn gywir hyd y gwyddoch ac rydych yn derbyn mai eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod data personol a gedwir gan y Brifysgol a'r sefydliad lle'r ydych yn astudio mewn perthynas â chi yn gyfredol. Rydych yn derbyn y gall y Brifysgol ddefnyddio eich data personol at ddibenion sy'n cyd-fynd â'i Hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth ac y gellir defnyddio data ar gyfer cyfathrebu â chyn-fyfyrwyr ar ôl graddio.

Rydych yn deall eich bod yn cael eich annog i ddatgelu manylion unrhyw euogfarnau troseddol, ac eithrio mân droseddau moduro, neu unrhyw euogfarnau wedi'u disbyddu (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974). Os caf fy euogfarnu am drosedd wrth astudio cwrs sy'n ei gwneud yn ofynnol i mi gael tystysgrif DBS, rwy'n deall ei bod yn rhaid i mi hysbysu Cofrestrfa'r Brifysgol yn ysgrifenedig ar unwaith.

## GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (Ar gyfer rhaglenni'r DU yn unig)

Os yw cael tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn ofyniad gorfodol ar gyfer eich cwrs, rydych yn deall y dylech gael tystysgrif ddilys ar ddechrau'r cwrs a'i darparu i'r Brifysgol a/neu'r sefydliad lle'r ydych yn astudio pan ofynnir amdano. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y dystysgrif yn cael ei chadw'n ddiogel ac os caiff ei cholli, ei difrodi neu ei dinistrio byddwch yn cael tystysgrif newydd yn ei lle ac yn talu am hynny ar unwaith. Rydych yn deall na chaniateir i chi fynychu lleoliadau heb dystysgrif ddilys.

Mae'r Brifysgol yn eich annog yn gryf i gofrestru gyda Gwasanaeth Diweddaru'r DBS. Mae'r Gwasanaeth Diweddaru yn danysgrifiad ar-lein sy'n sicrhau bod eich tystysgrif DBS manwl yn parhau'n gyfredol ac yn caniatáu i gyflogwyr wirio tystysgrif ar-lein gan arbed amser ac arian i chi drwy beidio â gorfod gwneud cais am dystysgrif DBS newydd bob tro.

## DATGANIAD PREIFATRWYDD MYFYRWYR

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddiogelu hawliau myfyrwyr yn unol â Deddf Diogelu Data'r DU 2018 (DPA) a Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR).

Mae'r Datganiad Preifatrwydd Myfyrwyr yn esbonio sut mae'r Brifysgol yn trin ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol ac mae ar gael yn https://www.uwtsd.ac.uk/data-protection/

Mae manylion am sut y defnyddir data personol gan HESA ar gael yn Hysbysiadau Casglu Data HESA sydd ar gael yn www.hesa.ac.uk/about/regulation/data-protection/notices.

**LLÊN-LADRAD**

Rydych yn cytuno, pan fo hynny'n berthnasol, i'ch data personol gael eu defnyddio gan y Gwasanaeth Canfod Llên-ladrad at y dibenion a amlinellir yn 'Llên-ladrad - Hysbysiad Casglu i Fyfyrwyr' sydd ar gael yn https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/registry/Plagiarism-Detection-Service.pdf. Caiff copi electronig o'ch gwaith ei gadw ar gronfa ddata a'i ddefnyddio at y dibenion a amlinellir yn y ddogfen hon.

**POLISI EIDDO DEALLUSOL**

Rydych yn derbyn darpariaethau'r Polisi Eiddo Deallusol ar gyfer Myfyrwyr sydd ar https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/academic-office/aqh-chapters/chapters--cy/Intellectual-Property-Policy-WELSH-updates.pdf ac yn cytuno i ddatgelu unrhyw waith dyfeisio sydd ar y gweill neu Eiddo Deallusol arall sy'n berthnasol i unrhyw weithgareddau ymchwil y gallech eu cyflawni, gan gynnwys datgelu unrhyw drydydd parti a allai fod â hawliad i'r ED hwnnw. Rydych yn cytuno i gadw at y telerau cyfrinachedd a osodir gan noddwr trydydd parti o'r gweithgareddau ymchwil y byddwch yn ymwneud â hwy, ac yn ymrwymo i beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu fasnachol sensitif y Brifysgol a/neu sefydliadau partner. Rydych yn cytuno i ddatgelu Eiddo Deallusol yr ydych yn ei greu mewn gweithgareddau ymchwil ac i wneud ymholiadau perthnasol i ofynion noddwr y prosiect ymchwil neu'r Brifysgol neu sefydliad partner y byddwch yn cymryd rhan ynddo. Rydych yn cytuno i ymrwymo i gytundeb ysgrifenedig â'r Brifysgol/sefydliad partner ynghylch perchnogaeth a defnydd eiddo deallusol yr ydych yn ei greu mewn gweithgareddau ymchwil.

**DIGWYDDIADAU Y TU HWNT I'N RHEOLAETH**

Bydd y Brifysgol a'r sefydliad lle'r ydych yn astudio yn gwneud popeth sy'n rhesymol bosibl i ddarparu'r rhaglen, gwasanaethau a chyfleusterau addysgol a rhai eraill cysylltiedig fel y nodir yn y wybodaeth berthnasol ar wefannau neu ddogfennau eraill a gyhoeddir  Fodd bynnag, ni fydd y Brifysgol a'r sefydliad lle'r ydych yn astudio yn atebol nac yn gyfrifol am unrhyw fethiant i gyflawni, neu oedi o ran cyflawni, unrhyw rwymedigaethau dan y contract a achosir gan ddigwyddiad y tu hwnt i'w rheolaeth.  Mae digwyddiad y tu hwnt i'w rheolaeth yn golygu unrhyw weithred neu ddigwyddiad y tu hwnt i'w rheolaeth resymol gan gynnwys yn ddigyfyngiad: streiciau, cau allan neu weithredu diwydiannol arall gan staff neu gan drydydd partïon; cynnwrf sifil, terfysg, ymosodiad, ymosodiad gan derfysgwyr neu fygythiad o ymosodiad gan derfysgwyr, rhyfel (boed hwnnw wedi'i ddatgan ai peidio) neu fygythiad neu baratoi am ryfel, tân, ffrwydrad, storm, llifogydd, daeargryn, ymsuddiant, neu drychineb naturiol arall neu 'weithred duw'; methiant rhwydweithiau telegyfathrebu cyhoeddus neu breifat; pandemig, epidemig ac unrhyw gyfyngiadau neu ofynion y gellid eu gorfodi ar unrhyw lywodraeth neu awdurdod perthnasol.

Os bydd digwyddiad y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol a/neu'r sefydliad lle'r ydych yn astudio yn effeithio ar gyflawni'r rhwymedigaethau i chi o dan y Cytundeb hwn: cewch eich hysbysu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol  Caiff unrhyw newidiadau i'r rhaglen, y cyfleusterau neu'r Cytundeb eu newid fel yr ystyrir yn angenrheidiol i sicrhau cydymffurfio ag unrhyw ofynion gan lywodraeth, neu er mwyn lliniaru fel arall effaith digwyddiad o'r fath arnoch chi. Caiff rhwymedigaethau dan y Cytundeb eu hatal dros dro a chaiff yr amser i gyflawni'r rhwymedigaethau ei ymestyn gydol y digwyddiad sydd y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol a/neu'r sefydliad lle'r ydych yn astudio.
Gallai'r newidiadau a wneir gynnwys, er enghraifft: cynnig cyfle i chi, pan fo'n rhesymol bosibl, drosglwyddo i raglen arall; gohirio dyddiad cychwyn eich rhaglen; cyflwyno'ch rhaglen mewn ffordd wahanol, o leoliad arall neu ar-lein, neu ar amser arall; cyflwyno fersiwn wedi'i addasu o'r un rhaglen; eich helpu i drosglwyddo i gwblhau'ch rhaglen gyda darparwr arall; cyflwyno gwasanaethau a chyfleusterau eraill mewn ffordd wahanol, o leoliad gwahanol neu ar-lein; cynnig ad-daliad neu iawndal i chi pan fo'n briodol.

Os nad ydych yn fodlon ar y camau a gymerwyd i liniaru'r tarfu a achoswyd, gallwch derfynu'r Cytundeb hwn a/neu wneud cwyn dan Bolisi Cwynion Myfyrwyr y sefydliad lle'r ydych yn astudio yn y lle cyntaf.

Pan fo'n angenrheidiol, yn sgil unrhyw rai o'r digwyddiadau uchod, i gau neu derfynu neu beidio â chyflwyno'ch rhaglen, bydd y Brifysgol a/neu'r sefydliad lle'r ydych yn astudio yn gwneud popeth sy'n rhesymol bosibl i'ch helpu i drosglwyddo i ddarparwr arall a byddwn yn ad-dalu ffioedd yn unol â'n polisi ac amserlen ad-daliadau.

**YMDDYGIAD CYFFREDINOL**

Rydych yn cytuno i ufuddhau i'r holl reoliadau sy'n berthnasol i fyfyrwyr y Brifysgol fel y'u diweddarir o bryd i'w gilydd.